Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte

# Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont Pontcysyllte a'r Gamlas

**1760au**

Mae'r gwaith o adeiladu camlesi ar draws y Deyrnas Unedig yn dechrau. Mae nafis yn cael eu cyflogi i wneud y gwaith caled o gloddio'r camlesi â llaw.



**1761**




Camlas Bridgewater ger Manceinion oedd un o'r cyntaf i gael ei chwblhau.

**1779**



Mae'r Bont Haearn yn Swydd Amwythig yn cael ei chwblhau gan ysbrydoli peirianwyr i ddefnyddio haearn ar gyfer prosiectau eraill.

**1791**

Mae buddsoddwyr yn cael cyfarfod i drafod cynlluniau ar gyfer camlas newydd i gludo glo o'r pyllau glo i'r trefi diwydiannol sy'n dechrau tyfu.



**1792**



Mae William Jessop, peiriannydd enwog, yn dod yn rhan o'r gwaith o ddylunio'r gamlas newydd.

**1793**

Mae Deddf Seneddol yn cael ei phasio yn caniatáu i'r gamlas gael ei hadeiladu.






Mae Thomas Telford, peiriannydd a phensaer talentog yn ymuno â'r tîm dylunio.

**1801**

Mae Dyfrbont y Waun yn cael ei chwblhau.



**1805**



Mae Dyfrbont Pontcysyllte yn agor yn swyddogol.

Oherwydd y gamlas roedd diwydiannau yn yr ardal yn ffynnu ac yn tyfu.



**1860au**



Mae'r rheilffyrdd erbyn hyn yn ffordd fwy effeithiol o symud nwyddau o gwmpas ac nid yw'r diwydiannau lleol yn defnyddio gymaint ar y gamlas.

**1880au**



Mae mwy o dwristiaid yn dod i Langollen.

**1950au**

Mae ymgyrchoedd gan gefnogwyr y gamlas a chynnydd mewn twristiaeth yn sicrhau bod y gamlas a'r dyfrbontydd yn aros ar agor.





Dydi nwyddau ddim yn cael eu cludo ar y gamlas yn aml iawn erbyn hyn ond mae'r gamlas yn dal i fodoli oherwydd ei bod yn cyflenwi dŵr yfed i ogledd-orllewin Lloegr.

**2005**




Mae Dyfrbont Pontcysyllte yn dathlu ei phen-blwydd yn 200 oed.

**2009**




Mae Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte yn cael eu datgan yn Safle Treftadaeth.

**Heddiw**

Mae pobl yn mwynhau defnyddio'r gamlas a'r llwybr tynnu ar gyfer hwylio, canŵio, cerdded a seiclo. Mae bywyd gwyllt hefyd yn ffynnu yno.

